




RHESTR TESTUNAU

EISTEDDFOD MÔN 2019

GŴYL Y FFERMWYR IFANC



DYDD SADWRN, 18 MAI 2019

YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Pris: £1.00

Croeso i Eisteddfod Môn 2019



Braint i ni fel Mudiad Ffermwyr Ifanc Môn oedd derbyn cynnig y Llys i drefnu a chynnal yr Eisteddfod yn 2019. Rwy'n siŵr bod nifer helaeth ohonoch yn ymwybodol ein bod yn trefnu ein heisteddfod ein hunain yn flynyddol, ond mae hi bob amser yn braf derbyn her newydd a gwasanaethu'r gymuned eisteddfodol yma ar yr ynys. Yn ogystal â hyn, rwy'n siŵr eich bod yn gwybod bod ein heisteddfod ni fymryn gwahanol i'r eisteddfod arferol ac rydym yn croesawu'r dasg sydd o'n blaenau i roi gogwydd 'ffermwyr ifanc' ar Eisteddfod Môn.

Cynhelir yr Eisteddfod ar Fai 18fed, 2019 yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Ar ben hynny, rydym yn gobeithio trefnu digwyddiadau ychwanegol i hybu'r Eisteddfod. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn bwrw ati i gynnal sawl noswaith hwyliog a chymdeithasol i godi arian. Rydym yn gobeithio y bydd rhywbeth yn y testunau yma at ddant pawb fydd yn ysgogi cystadlu brwd yn yr Eisteddfod.

Cerdd Groeso

Unwaith, amser maith yn ôl,
plannwyd hedyn ein hyfory
yn nhir glas yr Ynys –
Y llain sy'n goron ar Gymru.

Mona ofalus a balodd y pridd,
a ddododd yr hedyn,
a ddyfriodd y ffridd.

A than ei gofal, eginodd –
blagurodd blanhigyn
i'w phlant yn rhodd:

Yn grefft i'w hefelychu;
Yn ffordd o fyw i'w pharchu.

A dyma ni'r plant yn dysgu –
trin y tir, dewis yn ofalus bob gair,
dysgu clywed alaw mewn afon
a chynghanedd mewn gwair.

Plannwyd hedyn ein hyfory
gan fam wen, un a'n magwyd yn ei chôl,
Mona, dyna'i henw,
ac ati hi, fe ddown adre'n ôl:

I fynwes y Fam Ynys.
A dewch chithau, bob un,
o Amlwch i'r Bari,
bob dynes, bob dyn;

Gantorion Gwalia,
ddawnsywyr y glannau,

lenorion pob bro
ac adroddwyr y llannau,
dewch i Fôn ar eich union,
i ynys deg yr hen Dderwyddon.

'Steddfod yr Anifeiliaid fydd ichi 'mis Awst
a chlochdar a breffu yn crwydro bob trawst.

Ond ym mis Mai,
y Ffermwyr Ifanc fydd yma ichi,
yn canu ac adrodd,
yn barod iawn i'ch diddanu.

Felly dewch, da chi,
a medi'r hadau yng nghalon yr Ynys –
Yn y 'Steddfod unigryw,
wahanol, fyrlymus.

Gareth Evans Jones

Swyddogion Llys Eisteddfod Môn 2018/19

Cymrawd y Llys Dewi Jones, Stangau, Benllech

Llywyddion Anrhydeddus

Eryl H. Jones, 36 Cae'r Delyn, Bodffordd
Ellis Wyn Roberts, Bryn Parc, Bodffordd
Emyr Wyn Williams, 35 Maes yr Hafod, Porthaethwy
Victor Hughes, Llys Helyg, Bodffordd
Islwyn Williams, 9 Victoria Terrace, Biwmares

Llywydd y Llys

Gladys Pritchard, Crud yr Awel, 6 Llainfain, Caergybi

Is-Lywyddion y Llys

Evan D. Jones, Garddelan, Llannerch-y-medd
John Roberts, Llanfairpwll

Ysgrifennydd y Llys

Eira Fôn Parry, Bryn Goleu, Lôn Glasinfryn, Llanbedrgoch

Trysorydd y Llys

Gladys Pritchard, Crud yr Awel, Llainfain, Caergybi

Trysorydd Cynorthwyol y Llys

Pat Ann Roberts, Penrallt, Penrhyd, Amlwch

Swyddogion Technegol

Victor Hughes, Llys Helyg, Bodffordd
Evan D. Jones, Garddelan, Llannerch-y-medd

Swyddogion Llwyfan

Dic Pritchard, Gwel Eryri, Llangwyllog
Arwel Humphreys, Dolau Gleision, Bodffordd

Archwilwyr

D.Ll. Jones, B.Sc., F.C.A., Cwmni I. G. Jones, Cyfrifwyr Siartredig, Llangefni

Gorsedd Beirdd Môn

Swyddogion yr Orsedd 2019

Llywydd Anrhydeddus	Machraeth
Derwydd Gweinyddol	Rhisiart o'r Rhos
Bardd yr Orsedd	Annes Bryn
Caplan	Hywyddfab
Cofiadur	Marlyn
Trysorydd	Llanbedr-Rhosfair
Rhingyll	Efan
Ceidwad y Cledd	Ioan Dyfnan
Meistres y Gwisgoedd	Gladys Bodwradd
Ceidwad y Pyrth	Trefor Tanymanod a Belanydd
Cyflwynfeirdd	Marged Esli a Gwen Tre'r Gest
Cyfarwyddwr ac Arholwr Cerdd	Gwilym Tanrallt
Arhowr Llên a Barddoniaeth	Machraeth
Cyflwynferch	Glesni Rhys

Eisteddfod Môn 2019 – Gŵyl y Ffermwyr Ifanc

Amodau Cyffredinol

1. Cymraeg fydd iaith y llwyfan.
2. Bydd gan y beirniad hawl i atal neu ad-drefnu'r gwobrau.
3. Ni chaniateir gwrthdystio ar goedd yn erbyn unrhyw ddyfarniad. Rhaid anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Llys o fewn awr ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad. Gelwir ar Banel Dyfarnu i ddelio â'r gwrthdystiad.
4. Ym mhob cystadleuaeth sy'n gyfyngedig i oedran penodol, cyfrifir yr oedran ar **Fedi 1af, 2018**.
5. Disgwylir i gystadleuwyr ymddangos a chystadlu yn ôl y drefn a roddir iddynt ac i fod yn barod yng nghefn y llwyfan 5 munud cyn dechrau'r gystadleuaeth.
6. Yn dilyn rhagbrofion, gofynnir i'r beirniaid roi tri ar y llwyfan os bydd teilyngdod.
7. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth yn yr un adran.
8. Dyfarniad yn unig a roddir o'r llwyfan er mwyn arbed amser. Bydd beirniadaeth ysgrifenedig ar gael yn dilyn y canlyniadau. Gweler hefyd amodau llenyddol yn yr 'Adran Lenyddiaeth'.
9. Rhoddir hawl i aelodau'r pwyllgor gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth.
10. Bydd angen i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn anfon eu ffurflenni cystadlu i mewn erbyn y dyddiad cau a nodir un y testunau. Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.
11. Rhif cyswllt ar gyfer ymholiadau: 01407 720804

GWELER HEFYD AMODAU TESTUNAU ADRANNAU

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

Ffurflenni cystadlu Lleisiol, Cerdd Dant, Canu Gwerin, Offerynnol, Dawns ac Ysgafn i'w hanfon i:

Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn,

Maes Sioe Môn,

Gwalchmai,

Caergybi,

Ynys Môn.

LL65 4RW

NEU

ar e-bost i: eisteddfodmon2019@outlook.com

Erbyn Ebrill 19eg, 2019

Cerddoriaeth

Beirniaid Lleisiol:

Elin Angharad Davies, Gareth Rhys Davies, Geraint Roberts, Gwion Thomas

Cerdd Dant/Gwerin:

Elin Angharad Davies

Cyfeilyddion:

Ann Peters Jones, Olwen Jones, Elen Keen, Grês Pritchard

Telynores:

Elain Rhys Jones

Adran Lleisiol

Amodau Cerddoriaeth

NODER – mae llungopio unrhyw ddarn o gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon.

1. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ac eithrio yng nghystadleuaethau Unawd allan o Sioe Gerdd neu Ffilm.
2. Penderfynir y drefn i'r corau ganu ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
3. Ymhob cystadleuaeth lle bo hunan ddewisiad, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd:
 - Sicrhau copi i'r cyfeilydd / beirniad
 - Nodi enw(au) y darn(au) ar y ffurflen gystadlu

Lleisiol Cynradd

1. **Unawd Bl. 2 ac iau:** Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £7
- 3ydd - £5

2. **Unawd Bl. 3 a 4:** Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

3. Unawd Bl. 5 a 6: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

4. Parti unsain Bl. 6 ac iau (dim mwy na 12 mew'n nifer): Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £50
- 2il - £30
- 3ydd - £20

(Gwobrau yn rhoddedig gan Deulu Parc Isaf, Ty'n Lôn)

Lleisiol Uwchradd

5. Unawd Bl. 7, 8 a 9: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £15
- 2il - £12
- 3ydd - £8

6. Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed: Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o Sioe Gerdd/ffilm neu gân ysgafn i'w chanu yn y Gymraeg

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

7. Unawd allan o Sioe Gerdd neu ffilm Bl. 7 ac o dan 19 oed (hyd at 5 munud):

Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30 (Rhoddedig gan Deulu Rhos Llwyn, Llangwyllog)
- 2il - £20
- 3ydd - £10

8. Deuawd dan 19 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £24
- 3ydd - £16

Lleisiol Agored

9. Unawd allan o Sioe Gerdd neu ffilm 19 oed a throsodd:

Hunan ddewisiad – dim mwy na 5 munud i'w berfformio. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeilydd/gyfeiliant ei hun, gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys lleisiau cefndirol.

Gwobrau:

- 1af - £50
- 2il - £30
- 3ydd - £20

10. Ensemble/Grŵp Lleisiol (rhwng 3 a 16 mewn nifer):

Hunan ddewisiad digyfeiliant, o leiaf 3 llinell gerddorol, hyd at 5 munud

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

11. Canu emyn 26 oed ac iau: Hunan ddewisiad allan o Caneuon Ffydd

Gwobrau:

- 1af - £50 (Er cof am Taid, Leslie Lloyd, Dolwar, Bryngwran gan Guto, Ynyr, Lleucu, Ieuan ac Osian)
- 2il - £30
- 3ydd - £20

12. Canu emyn dros 50 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £50 (Er cof am Nain Rhos Owen, Llangristiolus gan Guto, Ynyr, Lleucu, Llio a Cai James)
- 2il - £30
- 3ydd - £20

13. Unawd 26 oed ac iau: Perfformio dwy gân:

a) dewis o unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder

b) unrhyw unawd Gymraeg

Cyflwynir Ysgoloriaeth gwerth £1,000 gan Gôr Meibion y Traeth tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. Rhaid cael sicrwydd bod yr Ysgoloriaeth yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn.

Gwobrau:

- 1af - £50
- 2il - £30
- 3ydd - £20

14. Unawd Gymraeg: Unrhyw gân a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr Cymreig a annwyd ar ôl 1900 i'w chanu yn y Gymraeg

Gwobrau:

- 1af - £60
- 2il - £40
- 3ydd - £25

15. Y Brif Unawd: Unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder i'w chanu yn y Gymraeg

Gwobrau:

- 1af - £100 (Rhoddedig gan Deulu Felin Fach, Llangristiolus)
- 2il - £75
- 3ydd - £50

16. Parti Deulais neu fwy heb fod yn fwy nag 20 mewn nifer: Hunan ddewisiad, un darn

- 1af - £100
- 2il - £75
- 3ydd - £50

17. Côr Meibion/Merched/Cymysg: Hunan ddewisiad, 2 ddarn gwrthgyferbyniol

Gwobrau:

- 1af - £300
- 2il - £200
- 3ydd - £150

Canu Gwerin

18. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

19. Unawd Alaw Werin Bl. 7 ac o dan 19 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

20. Unawd Alaw Werin 19 oed a throsodd: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

21. Côt/Parti Gwerin/Plygain Agored: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £100
- 2il - £75
- 3ydd - £50

Cerdd Dant

Amodau Cerdd Dant

1. Mae'n hollol hanfodol nodi'r gainc a'r cyweirnod ar y ffurflen gais.
2. Rhaid sicrhau copi o'r gainc yn y traw cywir o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod. Rhoddir caniatad i'r cyfeilydd wrthod cyfeilio os nad yw'r gainc wedi dod i law cyn yr Eisteddfod.
3. Rhaid sicrhau copi geiriau yn ddetholiad neu yn hunan ddewisiad gyda'r ffurflen gystadlu gan nodi'r gainc ddewisiol.
4. Rhaid i bob cystadleuydd drefnu ymarfer efo'r delynores cyn mynd ar y llwyfan. Ni fydd modd cael ymarfer ar y llwyfan.

22. Unawd Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

23. Unawd Bl. 7 ac o dan 19 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

24. Unawd 19 oed a throsodd: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

25. Côt/Parti Cerdd Dant: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £100
- 2il - £75
- 3ydd - £50

Offerynnol

Beirniad: Gavin Saynor

Amodau Offerynnol

PWYSIG: *Cofiwch nodi os ydych angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.*

1. Mae rhyddid i unawdwyr ddefnyddio eu cyfeilydd eu hunain.
2. Ni fydd cyfeilydd swyddogol ar gael ar y diwnod oni nodir yr angen ar y ffurflen gystadlu.
3. Dylid amgau copi o'r gerddoriaeth y bwriedir ei berfformio gyda'r ffurflen gais.
4. Ni chaniateir newid cyweirnod – rhaid perfformio'r gerddoriaeth yn y cyweirnod gwreiddiol.
5. Bydd hawl gan y beirniad i dynnu marciau oddi ar gystadleuydd aiff dros yr amser penodedig.

1. **Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau:** Hunan ddewisiad na chymer hwy na 3 munud i'w berfformio
Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

2. **Unawd Offerynnol Bl. 7, 8 a 9:** Hunan ddewisiad na chymer hwy na 5 munud i'w berfformio
Gwobrau:

- 1af - £15
- 2il - £12
- 3ydd - £8

3. **Unawd Offerynnol Bl. 10 ac o dan 19 oed:** Hunan ddewisiad na chymer fwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

4. **Ensemble Offerynnol Agored:** Hunan ddewisiad na chymer hwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

Cyfansoddi

Beirniad: Gareth Glyn

Amodau Cyfansoddi

1. Rhaid i'r holl gyfansoddiadau gyrraedd Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW neu ar e-bost i eisteddfodmon2019@outlook.com erbyn **Mawrth 1af, 2019**.
 2. Rhaid i bob cyfansoddiad ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth ynghyd â ffugenw yn unig wedi ei nodi arno.
 3. Gyda phob cyfansoddiad, rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol:
Oddi mewn: rhif a theitl llawn y gystadleuaeth, ffugenw, enw a chyfeiriad llawn y cystadleuydd a rhif ffôn.
Oddi allan: rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw y cystadleuydd.
 4. Rhaid cofrestru cyfansoddiadau i'w hanfon yn y post.
 5. Cymerir pob gofal am y cyfansoddiadau a'r cynhyrchion a anfonir i'r gystadleuaeth. Ni fydd yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
 6. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir cais ysgrifenedig, gydag amlen a stamp dilys arni.
-
1. **26 oed ac iau:** Darn o gerddoriaeth, unrhyw gyfrwng (lleisiol neu offerynnol) dim hwy na 5 munud i'w berfformio. Gellir cynnwys recordiad o'r gwaith. Caniateir gwaith TGAU, Lefel A neu unrhyw gwrs coleg.
Gwobr: £50 i'w rannu
 2. **Emyn dôn:** Cyfansoddi emyn dôn ar eiriau o'ch dewis ar gyfer cymanfa ganu draddodiadol neu fodern
Gwobr: £75 i'w rannu

Dawns (Gwerin/Stepio, Disgo/Hip Hop/Stryd)

Beirniad Dawnsio Gwerin/Stepio: Frances Jones

Beirniad Disgo/Hip Hop/Stryd: Marc Caldecott

Amodau Dawns

- Rhaid defnyddio cerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol.
- Rhaid nodi enw'r ddawns ar y ffurflen gystadlu.

1. Parti dawns werin Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

2. Dawns stepio unigol agored: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

3. Parti dawns werin agored: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £80
- 2il - £60
- 3ydd - £40

4. Dawns unigol disgo, hip hop neu stryd o dan 12 (Hyd at 3 munud): Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

5. Dawns unigol disgo, hip hop neu stryd, Agored (Hyd at 3 munud): Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

6. Grŵp dawnsio disgo, hip hop neu stryd, Agored (Dim llai na 4 aelod, hyd at 3 munud):

Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £80
- 2il - £60
- 3ydd - £40

Llefaru

Beirniaid: Osian Jones, Angharad Llwyd

1. Llefaru Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £7
- 3ydd - £5

2. Llefaru Bl. 3 a 4: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

3. Llefaru Bl. 5 a 6: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12
- 2il - £8
- 3ydd - £6

4. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £50
- 2il - £30
- 3ydd - £20

5. Ymgom Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

6. Llefaru Bl. 7, 8 a 9: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £15
- 2il - £12
- 3ydd - £8

7. Ymgom Bl. 7 a hŷn: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

8. Llefaru Bl. 10 ac o dan 19 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

9. Monolog Bl. 7 ac o dan 19 oed: Hunan ddewisiad, unrhyw ddarn hyd at 4 munud

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10

10. Ysgoloriaeth 26 oed ac iau: Unrhyw ddwy fonolog o ddrama/ddramau neu ryddiaith addas. Caniateir 7 munud ar gyfer paratoi a chlirio'r llwyfan. Disgwylir i un o'r monologau fod allan o waith Cymraeg gwreiddiol.

Cynigir Ysgoloriaeth gwerth £500 gan Lys Eisteddfod Môn tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. Rhaid cael sicrwydd bod yr Ysgoloriaeth yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn.

Gwobrau:

- 1af - £50
- 2il - £30
- 3ydd - £20

11. Llefaru agored: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £60
- 2il - £40
- 3ydd - £30

Cyflwynir Cwpan Goffa W. H. Roberts i'r enillydd.

12. Llefaru neu gyflwyno darn digri' Agored: Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru Awst 2018 – Gorffennaf 2019. Hyd at 4 munud. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisioes wedi ei gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol (rhestr awduron darnau digri' ar gael ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru – www.steddfota.org)

Gwobrau:

- 1af - £60
- 2il - £40
- 3ydd - £30

Amodau'r gystadleuaeth: Disgwylir i'r iaith fod yn weddus. Dylai'r pwyslais fod ar gyfleu hiwmor y darn a'i drosglwyddo i'r gynulleidfa. Caniateir defnyddio props os ydyw'n ychwanegu at y perfformiad. Rhaid sicrhau copïau i'r beirniad. Bydd ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn 2 eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2018 a diwedd Gorffennaf 2019 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2019, am wobrau o £100, £60 a £40. Cynigir Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (gwerth £500) yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol i alluogi'r enillwyr i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol.

13. Parti Llefaru agored: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £100
- 2il - £80
- 3ydd - £60

Adran Ysgafn

Beirniad: Dilwyn Morgan

Ni ddylir cyflwyno deunydd o natur anwedus.

1. Deuawd/Triawd doniol Agored - hyd at 5 munud

Gwobrau:

- 1af - £30
- 2il - £20
- 3ydd - £10

2. Sgets Agored - hyd at 5 munud

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

3. Stori a Sain Agored – 2 aelod, un i ddarllen stori a'r llall i wneud effeithiau sain fel y darllenir y stori. Bydd y darlennydd yn derbyn y darn darllen ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £7
- 3ydd - £5

Yn ychwanegol at y cystadlaethau uchod, gweler cystadleuaeth rhif 12 yn yr adran llefaru.

Llenyddiaeth

Amodau Llenyddiaeth

(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol ac heb ei wobrwyo mewn unrhyw eisteddfod arall. Bydd raid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y cyfansoddiadau i fod yn Gymraeg ac i'w cyflwyno ar un wyneb i'r dudalen yn unig. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Fedal Ryddiaith anfon dau gopi caled o'i waith i **Ganolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW** ynghyd â CD neu gof bach o'r gwaith gorffenedig. Er mwyn hwyluso gwaith y beirniaid a golygyddion y gyfrol '*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*' gofynnir i bob cystadleuydd ar waith ysgrifenedig ymestynnol eu hanfon ar CD neu gof bach neu ar ffurf e-bost.
3. Rhaid anfon **DAU GOPI** o'r gwaith ar gyfer **Cystadleuaeth y Gadair a'r Fedal Ryddiaith**.
4. Rhaid i bob cyfansoddiad:
 - ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur yn unig.
 - rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol gyda pob darn:
oddi mewn – rhif a theitl y gystadleuaeth , ffugenw, enw llawn a chyfeiriad y cystadleuydd a rhif ffôn (ac eithrio ysgolion).
oddi allan – rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur.
 - Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd.
 - Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd **Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW** neu ar e-bost i eisteddfodmon2019@outlook.com erbyn **Mawrth 1af, 2019**.
 - Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
5. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
6. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir **cais ysgrifenedig** gydag amlen a stamp dilys arni.

Prif Gystadleuaeth Barddoniaeth

1. **Y GADAIR:** Cerdd Gaeth neu Rydd (hyd at 100 llinell)
TIR
Gwobr: Cadair a gwobr ariannol o £150 (£100 yn rhoddedig gan Cen a Gwenda Williams, Llanfaelog)

Beirniaid: Yr Athro Peredur Lynch a Dr Llion Pryderi Roberts

Barddoniaeth yn y Mesurau Caeth

2. **Englyn:** TRACTOR
Gwobr: £30 (Rhoddedig gan JR a MJ Williams, Gwernyfed)
3. **Englyn Digrif:** DÊT DIGIDOL
Gwobr: £30 (Rhoddedig gan JR a MJ Williams, Gwernyfed)
4. **Cywydd:** CÔR Y WIG
Gwobr: £30
5. **Cwpledi Caeth i unrhyw 5 o'r canlynol:** Tymestl, Machlud, Gwyll, Barrug, Swnami, Niwl, Corwynt, Gosteg, Gwawrddydd, Awel
Gwobr: £30

Beirniad: Yr Athro Peredur Lynch

Barddoniaeth yn y Mesurau Rhydd

6. **Soned:** HAU A MEDI
Gwobr: £30
7. **Telyneg:** GWAWR
Gwobr: £30
8. **Baled:** SAMARIAD TRUGAROG
Gwobr: £30
9. **Limrig:** 'Wrth ddangos ei d(d)efaid un diwrnod...'
Gwobr: £30

Beirniad: Dr Llion Pryderi Roberts

10. **Geiriau Cân Gyfoes:** ar unrhyw thema o'ch dewis
Gwobr: £30

Beirniad: Gwilym Bowen Rhys

Prif Gystadlaethau Rhyddiaith

11. **MEDAL RYDDIAITH – 26 oed ac iau:** Dwy wahanol wedd ar STORM (Seremoni dan ofal CFFI Môn)
Gwobr: Medal a gwobr ariannol o £150.
Y Fedal yn rhoddedig gan Ann ac Ellis Wyn Roberts
Beirniaid: Nia Roberts a Manon Steffan Ros
12. **MEDAL RYDDIAITH – i rai dros 26 oed:** Darn neu gasgliad o ryddiaith greadigol ar y thema BUGEILIO neu ADFYWIO
Gwobr: Medal a gwobr ariannol o £150
Y Fedal yn rhoddedig gan Miss Heulwen Richards er cof am May a Goronwy Prys Jones.
£150 yn rhoddedig gan Arwyn Herald.
Beirniad: Lleucu Roberts

Cystadlaethau Rhyddiaith

13. Ysgrif Bortread: person o'ch dewis (dim mwy na 1,500 o eiriau)

Gwobr: £30

14. Stori Fer: GADAEI

Gwobr: £30

15. Blog: ar unrhyw bwnc o'ch dewis

Gwobr: £30

16. Llên Meicro: 5 darn ar unrhyw un thema o'ch dewis

Gwobr: £30

Beirniad: Nia Roberts

Drama

17. MEDAL DDRAMA: Cyfansoddi drama lwyfan heb unrhyw gyfyngiadau o ran hyd.

(Seremoni dan ofal CFFI Môn)

Gwobr: Medal a gwobr ariannol o £150

Y Fedal yn rhoddedig er cof am Audrey Mechell gan ei merched – Linda a Sandra.

Beirniad: Iola Ynyr

ADRAN LLÊN IEUENCTID (h.y. disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd)

Cynradd

Cyfnod Sylfaen: THEMA'R DOSBARTH

18. BARDDONIAETH

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

19. RHYDDIAITH

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

Cyfnod Allweddol 2: THEMA'R DOSBARTH

20. BARDDONIAETH

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

21. RHYDDIAITH

Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

Beirniad: Llio Mai Hughes

Uwchradd: THEMA AGORED

Blwyddyn 7, 8 a 9

22. BARDDONIAETH

Gwobrau:

- 1af - £25
- 2il - £15 (Rhoddedig gan JR a MJ Williams, Gwernyfed)
- 3ydd - £10

23. RHYDDIAITH: STORI FER, YMSON NEU DDYDDIADUR

Gwobrau:

- 1af - £25
- 2il - £15
- 3ydd - £10

Blwyddyn 10, 11, 12 ac 13

24. BARDDONIAETH

Gwobrau:

- 1af - £25
- 2il - £15
- 3ydd - £10

25. RHYDDIAITH: STORI FER, YMSON NEU DDYDDIADUR

Gwobrau:

- 1af - £25
- 2il - £15
- 3ydd - £10

26. Adolygiad: o UNRHYW LYFR

Gwobr: £20

27. TLWS YR IFANC: i'r awdur ifanc mwyaf addawol o'r adrannau Barddoniaeth a Rhyddiaith (cyflwynir y tlws yn ystod seremoni'r Fedal Ryddiaith)

Gwobr: £75

Beirniad: Dwynwen Powell a Manon Steffan Ros

Eisteddfod Môn 2019 – Gŵyl y Ffermwyr Ifanc

Ffurflen Cystadlaethau Llwyfan: Caniateir Ilungopio

Teitl a rhif y gystadleuaeth:

1.
2.
3.
4.
5.

Enw'r cystadleuydd/wyr:

Cyfeiriad:

.....

.....

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau:

I'w dychwelyd i:

Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys

Môn, LL65 4RW.

NEU

ar e-bost i: eisteddfodmon2019@outlook.com

Erbyn Ebrill 19eg, 2019

Ymholiadau: 01407 720804

Eisteddfod Môn 2019 – Gŵyl y Ffermwyr Ifanc

Ffurflen Cystadlaethau Cyfansoddi Cerddoriaeth: Caniateir llungopio

Rhan A: I'w osod ar y gwaith

Ffugenw:

Teitl y gwaith:

Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio gyda ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw:

Teitl y gwaith:

Rhif y gystadleuaeth:

Enw llawn:

Cyfeiriad:

.....

.....

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau:

I'w dychwelyd i:

Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW.

NEU

ar e-bost i: eisteddfodmon2019@outlook.com

Erbyn Mawrth 1af, 2019

Ymholiadau: 01407 720804

Eisteddfod Môn 2019 – Gŵyl y Ffermwyr Ifanc

Ffurflen Cystadlaethau Llenyddiaeth: Caniateir Ilungopio

Rhan A: I'w osod ar y gwaith

Ffugenw:

Teitl y gwaith:

Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio gyda ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw:

Teitl y gwaith:

Rhif y gystadleuaeth:

Enw llawn:

Cyfeiriad:

.....

.....

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau:

I'w dychwelyd i:

Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn, Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW.

NEU

ar e-bost i: eisteddfodmon2019@outlook.com

Erbyn Mawrth 1af, 2019

Ymholiadau: 01407 720804